



Llywodraeth Cymru  
Welsh Government

[www.cymru.gov.uk](http://www.cymru.gov.uk)

# Law yn Llaw at Iechyd

Nod Cymru yw sicrhau gwasanaethau iechyd a gofal iechyd gyda'r gorau yn unman.

Mae'r daflen hon yn egluro beth mae hynny'n ei olygu ar gyfer y cyfnod hyd at 2016 a'r tu hwnt, gyda Llywodraeth Cymru, y GIG, ei phartneriaid a'r cyhoedd yn gweithio gyda'i gilydd i sicrhau gwelliant ar draws Cymru.

# Law yn Llaw at Iechyd

## Ein Gweledigaeth ar gyfer y GIG yng Nghymru yn 2016

### Iechyd gwell i bawb yng Nghymru –

- bydd mwy o blant yn cael dechrau da ar fywyd
- bydd llai o fwch rhwng y rhai sydd â'r iechyd gorau a'r gwaethaf
- bydd y cyfraddau gordewdra, smygu, camddefnyddio cyffuriau ac alcohol yn gwastatáu neu'n gostwng
- bydd pobl yn mwynhau mwy o flynyddoedd o fywyd o ansawdd uchel.

### Gwella hygyrchedd a phrofiad y claf –

- bydd yn haws cael mynediad at wasanaethau gofal sylfaenol
- bydd mwy o wasanaethau yn cael eu darparu trwy fferyllfeydd lleol
- bydd mwy o wasanaethau ar gael 24 awr y dydd, 365 diwrnod y flwyddyn
- bydd ystod ehangach o wasanaethau lleol yn golygu bod llai o angen i deithio
- bydd mwy o wybodaeth am wasanaethau a materion iechyd ar gael dros y ffôn ac ar-lein.

## Gwella canlyniadau iechyd trwy wasanaethau mwy diogel o ansawdd gwell –

- byddwn yn gwarantu urddas a pharch cleifion
- bydd y systemau ar gyfer sicrhau gofal o ansawdd uchel gyda'r gorau yn y byd
- bydd pobl yn cael mwy o fudd o ofal iechyd – bydd 'canlyniadau' iechyd yn gwella
- byddwn yn rhoi pob gwasanaeth ar sylfaen gadarn ar gyfer y tymor hirach, gan eu darparu mor lleol â phosibl
- bydd gofal ysbyty arbenigol mewn canolfannau rhagoriaeth yn cyrraedd y safon uchaf
- bydd y GIG yn cydweithio ag asiantaethau perthnasol i sicrhau bod anghenion pobl o ran teithio i'r ysbyty yn cael eu hateb
- Bydd y cysylltiadau gorau posibl yn sicrhau bod staff clinigol yn cael mynediad cyflym, diogel a sicr i'r wybodaeth y mae ei hangen i helpu cleifion mewn unrhyw fan yng Nghymru
- bydd y GIG yn cyhoeddi gwybodaeth am berfformiad ei brif wasanaethau o safbwynt diogelwch, canlyniadau gofal a barn cleifion.

# Law yn Llaw at Iechyd

## **Pam rydyn ni'n cyhoeddi gweledigaeth newydd nawr?**

### **Mae heriau anodd yn wynebu'r GIG. Mae'r rhain yn cynnwys –**

- mwy o bobl â phroblemau iechyd hirdymor
- gormod o bobl yn smygu a nifer gynyddol dros bwysau
- hinsawdd ariannol anodd
- anawsterau wrth recriwtio staff.

### **ond rydym wedi creu cyfle gwirioneddol am ddyfodol llwyddiannus –**

- mae iechyd yn gwella – er nid i bawb eto
- mae cynnydd sylweddol o ran gwella ansawdd gwasanaethau
- rydym wedi gwneud y GIG yn symlach ac yn fwy integredig.

## Camau gweithredu mewn saith maes

**Yr her nawr yw gwneud gwelliannau sylweddol ac amlwg i iechyd pawb ac o ran perfformiad y GIG yn ystod y pum mlynedd nesaf. Bydd hyn yn golygu proses o newid ystyrlon a fydd yn sicrhau bod gan Gymru yn bendant un o'r systemau iechyd gorau.**

### **Dyma'r meysydd ar gyfer gweithredu:**

#### **1. Gwella iechyd yn ogystal â thrin salwch, sy'n cynnwys**

- gwelliannau clir i iechyd pawb o fewn pum mlynedd
- mwy o gydweithredu rhwng y GIG a'i phartneriaid – yn enwedig yn ystod blynyddoedd cynnar bywyd, ond hefyd ar bob adeg arall.

#### **2. Un system iechyd, sy'n golygu bod**

- pob gwasanaeth cyhoeddus yn gweithredu fel un gwasanaeth
- gofal mwy integredig o fewn system iechyd 24/7
- cynlluniau cyflenwi yn eu lle ar gyfer pob un o'r gwasanaethau pwysig.

#### **3. Ysbytai ar gyfer yr 21ain ganrif ar hugain fel rhan o rwydwaith gofal cwbl integredig sydd wedi'i gynllunio'n dda, gyda**

- gwasanaethau ar draws Cymru wedi'u sefydlu'n gadarn ac yn gyfoes
- yr holl wasanaethau wedi'u cynllunio o amgylch grwpiau o bractisau meddygon teulu
- gwasanaethau arbenigol wedi'u haildylunio er mwyn gwella canlyniadau

# Law yn Llaw at Iechyd

- Y GIG yn gweithio gyda chymunedau er mwyn sicrhau bod gwasanaethau'n iawn.

## 4. Anelu at ragoriaeth ym mhobman, fel y bydd

- cymariaethau cenedlaethol a rhyngwladol yn faen prawf o lwyddiant
- y prosesau gorau yn eu lle i sicrhau ansawdd a gwella ansawdd
- ymchwil a datblygu'n hyrwyddo gwelliant.

## 5. Tryloywder llwyr o ran perfformiad

- fel yr allwedd i feithrin rhagoriaeth ac atebolrwydd
- gyda gwybodaeth well i bawb ar bob agwedd ar iechyd a gwasanaethau iechyd.

## 6. Partneriaeth newydd â'r cyhoedd, sy'n helpu

- pob parti – Llywodraeth, y GIG a'r cyhoedd – i fod yn glir am eu cyfrifoldebau
- i ganolbwyntio ar gefnogi canlyniadau iechyd gwell a thorri ar wastraff.

## 7. Sicrhau bod pob ceiniog yn cyfrif,

- cyfuno gwerth am arian a gwasanaeth rhagorol mewn un sgwrs

## ... a phwysigrwydd ein staff

- rydym am weld ein staff yn dymuno bod yn staff o'r radd flaenaf a byddwn yn eu helpu ni i gyflawni hynny.

## Beth fydd Llywodraeth Cymru'n ei wneud i chi?

- bydd gweithredu ar draws llywodraeth yn anelu at fynd i'r afael â thlodi ac yn enwedig i wella iechyd plant a'u cyfleoedd mewn bywyd
- bydd ymgyrchoedd newydd yn targedu camddefnyddio alcohol, gordewdra, smygu, beichiogrwydd yn yr ardegau, a chamddefnyddio cyffuriau
- bydd gan bobl â chanser, materion iechyd meddwl a phroblemau iechyd cronig gynlluniau gofal personol
- bydd pob rhan o Gymru'n cyhoeddi cynllun lleol i greu gwasanaethau cynaliadwy i bob cymuned
- bydd Cymru'n cymharu ei pherfformiad iechyd â'r gorau ar draws y byd
- bydd staff y GIG yn cael eu hannog i adolygu a diweddarau arferion lleol yn unol â'r arferion gorau.

## Beth allwch chi ei wneud i helpu'ch hunan?

- meddyliwch yn ofalus am yr hyn rydych yn ei fwyta a'i yfed
- diogelwch blant rhag tybaco a helpwch smygwyr
- gwnewch fwy o weithgarwch corfforol
- ystyriwch negeseuon am yr hyn a allai wella eich iechyd
- ceisiwch ganiatáu am y ffaith na all y GIG wneud popeth
- rhowch adborth teg i'r GIG ar ei berfformiad.

## Sut bydda i'n gwybod ei fod yn llwyddo?

- bydd gwasanaeth gwybodaeth newydd yn dangos sut mae Cymru'n gwneud
- bydd Llywodraeth Cymru'n cyhoeddi'r cynnydd bob chwe mis
- bob blwyddyn bydd adroddiad ar yr holl wasanaethau pwysig, fel gwasanaethau canser
- bydd y GIG yn holi cleifion am y gwasanaethau a gânt ac yn cyhoeddi'r ymatebion.